

YMUNWCH YN NHRAFODAETH CAERFFILI

Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau arbedion o £8.5 miliwn bron ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae hyn yn ychwanegol at y £103 miliwn y bu'n rhaid i'r Gyngor ei dynnu o'i gyllideb er 2008.

Cyflwynwyd rhestr o gynigion cyllidebol drafft i Gabinet y Cyngor ar 13 Tachwedd 2019, a fyddai'n caniatáu'r arbedion angenrheidiol o £8.495 miliwn ar gyfer 2020/21. Eleni, mae'r cynigion yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Bod yn fwy effeithlon
- Gwneud pethau'n wahanol
- Toriadau/gostyngiadau i wasanaethau
- Cynyddu ffioedd a thaliadau
- Manteisio ar y model gweithredu newydd, o'r enw '#TîmCaerffili – Yn Well gyda'n Gilydd' (sy'n canolbwyntio yn bennaf ar sicrhau effeithlonrwydd drwy adolygu prosesau, awtomeiddio ac adolygu strategaeth fuddsoddi'r Gyngor)

Mae eich barn yn bwysig! Treuliwch amser yn ateb y cwestiynau isod fel y gallwn ddefnyddio'ch barn i helpu llywio ein penderfyniadau cyllidebol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

1) Ar ôl darllen y rhestr o arbedion arfaethedig, a'u hystyried, nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno ag unrhyw un neu ragor o'r rhai ar y rhestr, gan roi rhesymau dros eich ateb. Byddwch cystal â nodi'r cynnig rydych yn cytuno'n gryf/anghytuno'n gryf ag ef yn gyntaf:

Cynigion rwy'n cytuno â nhw:	Cynigion rwy'n anghytuno â nhw:
1)	1)
2)	2)
3)	3)



YMUNWCH YN NHRAFODAETH CAERFFILI

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cychwyn ar raglen drawsnewid fawr, o'r enw '#TîmCaerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd'.

Yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol bresennol, mae'r rhaglen yn edrych ar sut y gallwn wneud pethau'n wahanol, bod yn fwy arloesol ac effeithlon, archwilio cyfleoedd i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid, manteisio ar ragor o gyfleoedd digidol, edrych ar gyfleoedd cydweithredu, ystyried modelau cyflawni eraill a chwilio am gyfleoedd masnachol.

4) Gan edrych tuag at 2022 a thu hwnt, ac o ystyried y sefyllfa ariannol sy'n wynebu cynghorau ledled y wlad, pa syniadau sydd gennych ynglŷn â sut y gallem ddarparu ein gwasanaethau'n wahanol er mwyn diwallu anghenion ein trigolion ar hyn o bryd a diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol?

Mae'r rhaglen drawsnewid, #TîmCaerffili, yn golygu ail-lunio'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. Fel rydym wedi'i bwysleisio yn barod, rhaid i ni wneud pethau'n wahanol er mwyn amddiffyn gwasanaethau cyngor sydd eu hangen ac sy'n werthfawr. Yn y dyfodol, bydd hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn llai, yn darparu llai o wasanaethau ac, o bosibl, yn darparu'r gwasanaethau sy'n weddill mewn ffordd wahanol.

Os ydym am barhau i ddarparu rhai o'r gwasanaethau dewisol (sef y pethau nad oes rhaid i ni eu gwneud yn ôl y gyfraith), bydd arnom angen help ein cymunedau a'r sector gwirfoddol i'w darparu.

5) Pa syniadau sydd gennych ynglŷn â sut y gallwch chi a'r gymuned ehangach geisio helpu'r Cyngor i gyflawni hyn?

6) Os ydy'ch ymateb i unrhyw un neu ragor o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn wedi'i ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un neu ragor o'r canlynol – tarddiad ethnig, rhywedd, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabled, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros ddibynyddion – rhowch fanylion isod.

YMUNWCH YN NHRAFODAETH CAERFFILI

AMDANOCH CHI...

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni sampl gynrychioliadol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ateb y cwestiynau canlynol amdanoch chi eich hun.

Rwy'n llenwi'r arolwg hwn (Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol):

- Fel un o drigolion y Fwrdeistref Sirol Fel aelod o staff
 Fel cynrychiolydd mudiad trydydd sector Fel person busnes
 Fel aelod etholedig Arall, nodwch:

Fy nghod post yw:

Rydw i'n (Dewiswch un):

- <16 16-25 26-39 40-49 50-65 66+

Rydw i (Dewiswch un):

- Yn wryw Yn fenyw Gwell gen i beidio â dweud

Arall, nodwch

Beth yw eich prif iaith? (Dewiswch un)

- Saesneg Cymraeg Arall (gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain)

- Gwell gen i beidio â dweud

Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd? (Dewiswch un)

- Ydw Nac ydw

DIOLCH AM LENWI'R AROLWG HWN.

Dychwelwch y ffurflen hon i unrhyw un o brif swyddfeydd y Cyngor neu eich Llyfrgell, Canolfan Hamdden, Swyddfa Arian neu Swyddfa Tai agosaf.

Fel arall, gallwch ddychwelyd yr arolwg ac unrhyw sylwadau ychwanegol drwy'r post i:

**Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd,
Gwasanaethau Gwella Busnes,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta,
Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.**

**Y DYDDIAD CAU AR GYFER CYMRYD RHAN YN YR
YMGYNGHORIAD HWN YW DYDD LLUN 13 IONAWR 2020**

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD:

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, ewch i: <https://www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Privacy-Notice-Consultations-Surveys-cy.aspx>

TRAFODAETH CAERFFILI
THE CAERPHILLY CONVERSATION

